



Adroddiad tywydd Weatherlands

Helô a chroeso i'ch diweddariad Weatherlands cenedlaethol yma oddi wrth Gyngor y Daroganwyr Tywydd.

I'r mwyafrif helaeth o Ddinas Celestia fe fydd hi'n ddiwrnod braf arall gyda mwy o dywydd hyfryd i ddod drwy'r wythnos.

Ond mae bob amser un neu ddau o eithriadau yn y Weatherlands... Nid yw'n syndod y bydd Trickle Towers yn y Gorllewin yn cael bore diflas gyda chawodydd parhaus, yn debygol o barhau i ddydd Iau a phob diwrnod y tu hwnt i hynny.

Rydym wedi gweld gostyngiad bach yn y tymheredd yn ne'r Forest of Fahrenheits sydd wedi achosi rhai amodau rhewllyd yn y Jumping Puddles, ac mae'r gwynt dwyreiniol o'r Windsock Weather Wobbler Arena yn debygol o wthio'r aer oer hwnnw i'r fflatiau Airy ac ymhellach i'r Dwyrain tuag at Weatherstone Circle. Felly efallai y bydd y rhai ohonoch sy'n ymweld â'r meini hirion dros y dyddiau nesaf am fynd â sgarff!

Mae posibilrwydd o fewn bryniau'r Gogledd a Sky Academy y gallem weld cynnydd mewn creaduriaid cymylau, ac un neu ddau o greaduriaid cwmwl o amgylch y Sun Citadel.

Gallai tymheredd o amgylch y leinin arian ostwng dwy neu dair gradd, ond mae hyn yn arferol iawn ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

Mae lefelau cynyddol o fellt o amgylch Bolt Buildings yn y De Ddwyrain yn awgrymu rhywfaint o weithgarwch twyllodrus yn yr ardal, fodd bynnag, bydd Gyngor y Daroganwyr Tywydd yn cadw llygad barcud ar hyn dros y dyddiau nesaf.

Ar y cyfan, mae dinas Celestia yn gweld wythnos lawer tawelach ar ôl y knickernados a'r gwyddau'n glawio o storm fawr yr wythnos diwethaf. Ond daeth Rainbow Grey i'r adwy i roi dogrn arbennig ychwanegol o enfysau a thywydd hyfryd ledled y Weatherlands i ni. Mae Gyngor y Daroganwyr Tywydd yn awr yn cadw rheolaeth lawn dros y tywydd unwaith eto ar ôl digofaint Tornadia Twist ac yn dymuno wythnos bleserus i chi!